Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 5/8/17 News

Croeso / *Welcome*

Croeso mawr i chi nôl i flwyddyn sy'n argoeli i fod yn un cyffrous a phrysur iawn! Mae'r cais cynllunio wedi ei gymeradwyo a'r cwmni adeiladu ar fin cael ei ddewis i adeiladu ein hysgol newydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael torri'r dywarchen gyntaf a gweld y gwaith yn cychwyn o ddifri. Diolchwn i chi gyd am eich amynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gofynnwn am eich cydweithrediad am ychydig fwy tan fydd yr adeilad newydd yn barod. Croeso arbennig yr wythnos yma i'r deg plentyn sy'n cychwyn yn y dosbarth meithrin – Logan, Anwen, Leia, Eli, Henri, Tesni, Thomas, Harri, Mary Jayne a Hari. Dwi'n siwr y byddant yn setlo'n gyflym yn Safle Cyffylliog.

A huge welcome back to you all to what is going to be a very exciting and busy year. The planning application has been granted and the tenders are in. We should know shortly which company will be chosen to build the school and then it should be all systems go! We thank you for your patience over the last few years and ask for your cooperation a little longer until the new build is ready. A special welcome this week to our ten new nursery children - Logan, Anwen, Leia, Eli, Henri, Tesni, Thomas, Harri, Mary Jayne a Hari. I'm sure they will settle in quickly in their class on the Cyffylliog Site.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Gofynnwn yn garedig i bawb gofio archebu lle o flaen llaw i'w plant yn y clwb brecwast a pheidio troi fyny ar y bore yn gobeithio am le. Mae'r clwb brecwast ar y ddau safle yn brysur iawn rhai dyddiau ac rydym angen gwybod faint o blant sy'n mynd i droi fyny er mwyn i ni ofalu fod gennym ddigon o fwyd a digon o staff i edrych ar ôl y plant. *We kindly ask everyone to remember to book their children into breakfast club before hand and not just turn up in the morning. The breakfast clubs on both sites get very busy some mornings and we need to know before hand how many children are going to turn up so that we can ensure we have enough food and enough staff to look after the children. Diolch yn fawr.*

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

13/9/16 Cyfarfod Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Meeting* 7.30pm Safle Clocaenog
19/9/17 Cyfarfod i rieni Meithrin / *Meeting for Nursery parents Safle Cyffylliog 5pm*
19/9/16 Clwb Garddio Bl 3 a 4 *Gardening Club*
19/9/16 Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 *Sports Club*
25/9/16 Noson Wybodaeth CA2 / *KS 2 Information Evening* 6pm Clocaenog
26/9/16 Clwb Garddio Bl 5 a 6 *Gardening Club*
26/9/16 Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4 *Sports Club*
2/10/16 Noson wybodaeth Derbyn, Bl 1 a 2 / *Reception, Yr 1 & 2 Information Eve 6pm Cyffylliog*
3/10/16 Clwb Garddio Bl 3 a 4 *Gardening Club*
3/10/16 Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 *Sports Club*
11/10/16 Clwb Garddio Bl 5 a 6 *Gardening Club*
11/10/16 Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4 *Sports Club*
17-18/10/17 Ymweliad dros nos Bl 3 a 4 i Bentrellyncymer / *Yr 3 & 4 overnight visit to Pentrellyncymer.*
18/10/16 Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 *Sports Club*
24/10/16 Clwb Garddio Bl 5 a 6 *Gardening Club*
24/10/16 Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4 *Sports Club*
27/10/16 Cau dros hanner tymor / *Close for half term*
6/11/16 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
7/11/16 Plant yn ôl / *Children start back in school*
14/11/16 Noson Rieni CA2 / *KS2 Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
16/11/16 Noson Rieni CS / *FPh Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
22/12/16 Cau dros wyliau'r Nadolig / *Close for Christmas holiday*
8/1/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
9/1/17 Plant yn ôl / *Children start back in school*
29-31/1/18 Ymweliad Bl 5 a 6 a Chaerdydd / *Yr 5 & 6 Cardiff visit.*

Cinio Ysgol / School Dinners

Bydd pris cinio ysgol yn codi i £2.10 y diwrnod eleni. *The cost of school dinners will be £2.10 per day this year.*

Gwefan a Trydar / Website and Twitter

Cofiwch edrych ar wefan yr ysgol - www.ysgolcarregemlyn.cymru. Mae tudalen gan pob dosbarth ar y wefan. Hefyd mae'r athrawon dosbarth yn trydar yn gyson. Felly cofiwch ddilyn yr ysgol - @carregemlyn ac edrych allan am #YCEMaD, #YCE1a2, #YCE3a4 a #YCE5a6 i weld beth sy'n mynd ymlaen yn nosbarth eich plentyn.

Remember to look at the school website – www.ysgolcarregemlyn.cymru. Each class has a page on the website. Also the class teachers tweet regularly. Therefore, follow the school - @carregemlyn and look out for #YCEMaD, #YCE1a2, #YCE3a4 a #YCE5a6 to see what's going on in your child's class.

Talu am Ffrwyth
Fruit Money

Mae cost o £1 yr wythnos am ffrwyth boreuol. Felly bydd angen talu £7.80 am ffrwyth bore am yr hanner tymor. A gawn ni'r arian cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda. *The cost for fruit is £1 per week. Please remember to pay £7.80 for the fruit for the half term. Could we have the money in as soon as possible please.*

Cyfathrebu / *Communication*

A wnewch chi ffonio'r ysgol erbyn 9 y bore i roi gwybod ini os nad yw eich plentyn yn yr ysgol gan nodi'r rheswm dros hyn. Hefyd a wnewch wneud yn siwr fod yr athro dosbarth yn gwybod os ydi'ch plentyn yn mynd i Glwb Caenog neu i'r Cylch Meithrin neu gyda person gwahanol ar ddiwedd y dydd er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cael eu gyrru i'r man cywir. Os ydych yn gyrru arian i'r ysgol gyda'ch plentyn a wnewch wneud yn siwr ei fod mewn amlen gyda enw eich plentyn arno gan nodi am beth rydych yn talu. Diolch. *Could you please ensure that you contact the school in the morning by 9am if your child is absent from school giving a reason for the absence. Could you also make sure that your child's teacher knows if they are going to Clwb Caenog or the Cylch Meithrin or home with a different person at the end of the school day so that they are sent to the correct place. If you send money into school can you ensure that it is in an envelope with your child's name on it and what you are paying for. Thank you.*

Cyfafod Rhieni Meithrin / *Nursery Parents' Meeting*

Bydd cyfarfod i rieni y plant meithrin bnawn Mawrth Medi 19eg ar Safle Cyffylliog am 5pm. Fe gewch gyfle i ofyn unrhyw gwestiwn am fywyd eich plentyn yn yr ysgol ac hefyd weld y dosbarth. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yno. *There will be a meeting for the nursery parents on Tuesday September 19th at the Cyffylliog site at 5pm. In the meeting you will have the opportunity to ask questions and see the classroom. We look forward to seeing you there.*

Cyfeillion yr Ysgol
Friends of the School

Bydd Cyfarfod Cyfeillion Ysgol Carreg Emlyn nos Fercher Medi'r 13eg. Bydd y cyfarfod ar Safle Clocaenog am 7.30pm. Dewch yn llu i gyfarfod a rhieni eraill ac i helpu trefnu rhaglen y flwyddyn. *There will be a meeting of The Friends of Ysgol Carreg Emlyn on Wednesday 13th of September. It will be held on the Clocaenog Site at 7.30pm. Come along to meet the other parents and to help organize the calendar of events for the year.*

Ffurflenni Cais am Absenoldeb
Absence Request Forms.

Os ydych am gymeryd eich plentyn allan o'r ysgol am unrhyw gyfnod a wnewch chi ofyn i'r ysgol am y ffurflen Cais am Absenoldeb. Byddwch yn cael ateb in ddweud os yw'r absenoldeb yn cael ei awdurdodi a'i peidio. **Ni fydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldebau gwyliau** ac felly os byddwch yn mynd a'ch plentyn ar wyliau yn ystod amser ysgol bydd yn absenoldeb di awdurdod. Dyma ydi canllawiau Cyngor Sir Ddinbych. Os bydd eich plentyn i ffwrdd o'r ysgol heb awdurdod am 10 sesiwn (5 diwrnod) byddwch yn cael llythyr rhybudd gan y Sir. Yna, os bydd eich plentyn i ffwrdd am 20 sesiwn (10 diwrnod) byddwch yn cael Hysbysiad Cosb Penodedig.

If you intend to take your child out of school for any period of time please ask for an Absence Request Form. You will get a reply to inform you if the absence will be authorised or not. ***The school will not be authorize holiday absences*** *and therefore if you take your child on holiday during term time it will be an unauthorized absence. These are the guidelines from Denbighshire County Council. If your child is off school unauthorised for 10 sessions (5 days) you will get a warning letter from the County. Then if your child is off school unauthorised for 20 sessions (10 days) you will get a Fixed Penalty Notice.*

Sialens Ddarllen yr Haf
Summer Reading Challenge

Gobeithio fod pawb wedi bod yn y llyfrgell dros yr haf ac ymuno a'r sialens ddarllen. Dewch a'ch tystysgrifau i ni yn yr ysgol er mwyn i ni gael gweld faint o blant gwblhaodd y sialens eleni! *We hope that everyone went to the library to join the reading challenge over the summer. Bring your certificates to school so we can see how many children completed the challenge!*



Enillwyr Sioe Cyffylliog a Bontuchel

Meithrin a Derbyn

Bl 1 a 2

Bl 3 a 4

Bl 5 a 6





Gwobrau Sioe Clawdd a Clocaenog

PIC•COLLAGE